

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Taflen Ffeithiau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy



Rydym yn cydnabod mai'n hadnoddau naturiol yw rhai o'r asedau pwysicaf sydd gennym. Mae fframwaith ailadroddus yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) a fydd yn fodd i sicrhau bod rheoli'n hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn ystyriaeth ganolog wrth wneud penderfyniadau. Mae'r fframwaith hon yn cynnwys Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, a datganiadau ardal.

Yr Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol

Mae data, tystiolaeth a gwybodaeth gywir yn hollbwysig wrth inni wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd. Rydym am sicrhau sylfaen dystiolaeth gyfredol a chynhwysfawr a fydd yn ein helpu i reoli'n hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy. Dyna pam mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol. Bydd yn rhan hanfodol o'n dull newydd o weithredu. Bydd yn rhoi inni asesiad o gyflwr adnoddau naturiol Cymru ac yn dangos ym mha gyflwr y mae'r adnoddau naturiol hynny a faint ohonynt sydd ar gael. Bydd yn dangos hefyd a ydynt yn abl i ymateb i'r pwysau sydd arnynt ac i addasu er mwyn ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd.

Bydd yr Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol hefyd yn rhoi inni'r dystiolaeth allweddol a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i fynd ati mewn ffordd newydd a mwy integredig i reoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd y sylfaen dystiolaeth hon yn ein galluogi i nodi'r cyfleoedd i wneud ein hadnoddau naturiol yn fwy cydnerth a bydd hefyd yn rhoi cyfleoedd inni sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i Gymru yn y tymor hir.

Wrth reswm, nid dim ond Llywodraeth Cymru fydd yn defnyddio'r Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol. Bydd awdurdodau cyhoeddus yn ei defnyddio i'w helpu i fodloni eu dyletswyddau bioamrywiaeth newydd a bydd ar gael i bawb. Y nod yw bod y dystiolaeth ynddi yn cael ei defnyddio ledled Cymru i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan amrywiaeth o randdeiliaid megis busnesau, grwpiau cymdeithasol, elusennau a chymunedau.

Bydd dyletswydd ar gyrff cyhoeddus eraill i roi gwybodaeth a chymorth i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi'r Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol os gofynnir iddynt wneud hynny.

Rydym yn cydnabod hefyd fod pethau'n newid, bod gwybodaeth newydd yn dod i'r golwg, bod dulliau newydd yn cael eu profi ac atebion newydd yn cael eu darganfod. Bydd yr Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol yn cael ei ddiweddarau cyn pob un o etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O'r ail Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol, bydd draft yn cael ei gyhoeddi 12 mis ymlaen llaw o'r adroddiad terfynol. Bydd hynny'n caniatáu i bob Llywodraeth newydd a gaiff ei ffurfio yng Nghymru ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf cyfredol a fydd ar gael wrth fynd ati i lunio'i pholisïau.

Y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol

O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn amlinellu eu polisïau ar sut y gellir rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn cael ei baratoi gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a fydd ar gael ac a fydd yn cael ei darparu yn yr Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol. Bydd hefyd yn ystyried ffynonellau eraill o wybodaeth, megis Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a thystiolaeth am y cynnydd y byddwn wedi'i wneud o ran cyrraedd y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd Gweinidogion Cymru yn mynd ati drwy gyfrwng y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol i bennu'r blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Bydd yn pennu'r cyfeiriad lefel uchel, gan bennu hefyd lle y gall rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy helpu i sicrhau'r cyfleoedd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol gorau posibl, a hynny ar yr adeg dan sylw a hefyd yn yr hirdymor. Bydd hefyd yn cynnwys y camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

Bydd hyn yn fodd i hyrwyddo ffordd gydgyssylltiedig o fynd ati i ddatblygu polisïau Llywodraeth Cymru, a bydd hefyd yn helpu i gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer y datganiadau ardal a fydd yn cael eu paratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan sicrhau y bydd y modd y byddwn yn mynd ati i gyflawni'n lleol yn seiliedig ar y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Datganiadau Ardal

Lluniwyd y Ddeddf mewn modd a fydd yn sicrhau y bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar y raddfa ddaearyddol fwyaf priodol. Dyna pam ei bod hi'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi, cyhoeddi ac adolygu datganiadau ardal. Mae'n rhaid i bob rhan o Gymru gael ei chynnwys o fewn o leiaf un o'r datganiadau ardal.

Wrth baratoi datganiadau ardal, bydd angen ystyried y dystiolaeth yn yr Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol, a bydd gofyn hefyd weithredu'r blaenoriaethau, risgiau a'r cyfleoedd a fydd wedi'u nodi yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel leol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cael defnyddio datganiadau ardal i'w helpu i gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau ac mae'n rhaid iddo ystyried cyfleoedd ar gyfer cysoni, lle bo hynny'n briodol, unrhyw gynlluniau, rhaglenni neu strategaethau o fewn datganiad ardal.

Bydd datganiadau ardal yn darparu sylfaen dystiolaeth leol a fydd yn gallu cyfrannu at fersiynau o'r Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol a gyhoeddir yn y dyfodol. Mae'n rhaid iddyn nhw ystyried asesiadau llesiant lleol y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi'u cynnal sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y datganiadau ardal wrth baratoi eu cynlluniau datblygu lleol ac mae'n rhaid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol roi ystyriaeth iddyn nhw wrth baratoi neu adolygu eu cynlluniau rheoli ar gyfer Parciau Cenedlaethol.

Er mai cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw paratoi datganiadau ardal, mae hefyd yn gallu gofyn i gyrff cyhoeddus eraill ddarparu gwybodaeth a'i helpu i'w paratoi a'u gweithredu. Wrth ddefnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae'n rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru gydweithio ag eraill hefyd i ddatblygu datganiadau ardal.

Bydd y dull hwn yn gwella cydweithio rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill i wella'r broses o wneud penderfyniadau ac i leihau dyblygu.

Treialon Ardal

Rydym y awyddus i ddysgu gwersi yn gynnar a fydd o gymorth inni roi'r dull newydd hwn o weithio ar waith. Er mwyn helpu i wneud hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal treialon mewn tair ardal, sef dalgylchoedd afonydd Rhondda, Tawe a Dyfi. Roedd y treialon yn edrych ar y ffordd orau o reoli adnoddau naturiol ar lefel leol. Mae'r treialon wedi helpu i gynnal buddiannau ymarferol ar lawr gwlad ar gyfer cymunedau o fewn pob un o'r ardaloedd treialu; mae'r treialon hefyd wedi helpu i ddangos sut gellir rhoi Rheoli Adnoddau Naturiol ar waith yn ymarferol tra'n bwysicach na dim, yn dysgu gwersi ar hyd y ffordd. Bydd yr wybodaeth a'r gwersi a gesglir yn ystod y treialon yn cael eu defnyddio i datblygu datganiadau ardal sy'n amlinellu heriau, cyfleoedd a blaenoriaethau pwysig ar lefel leol ar gyfer defnyddio a rheoli ein hadnoddau naturiol yn y dyfodol.

Yr amserlen

Ym mis Medi 2015, fe wnaethom gyhoeddi Datganiad Polisi ar Adnoddau Naturiol er mwyn dangos potensial y blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer ein hadnoddau naturiol. Y datganiad hwn a ragflaenodd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol cyntaf a gellir ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r bartneriaeth er mwyn datblygu a llunio ein polisi statudol cyntaf.

Y bwriad yw cyhoeddi'r Adroddiad statudol cyntaf am Gyflwr Adnoddau Naturiol yn hydref 2016. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei ddiweddarau cyn pob un o etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bydd fersiwn drafft yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw. Bydd y Datganiad Polisi cyntaf ar Adnoddau Naturiol yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2017. Ar ôl hynny, bydd yn cael ei adolygu ar ôl pob un o etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ar ôl i Lywodraeth newydd gael ei ffurfio yng Nghymru. Mae hyn yn caniatáu Gweinidogion Cymru i ystyried y cynnydd a fydd wedi'i wneud o ran rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, ynghyd â'r dystiolaeth newydd yn adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyflwr adnoddau naturiol. Bydd y gwaith o ddatblygu'r datganiadau ardal cyntaf yn dechrau ar ôl i'r dogfennau hynny gael eu cyhoeddi ac mae'n rhaid i'r iteriad ar gyfer y datganiadau ardal gael eu cwblhau erbyn 2019.

Rhagor o wybodaeth

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016. Gallwch ddarllen rhagor am y Ddeddf ei hun ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd

Gallwch hefyd danysgrifio i gael ein e-fwletin misol drwy anfon e-bost at:

NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk